Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

**TEITL** **Rheoliadau REACH etc. (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020**

**DYDDIAD** **20 Hydref 2020**

**GAN** **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**

**OS a osodwyd yn Senedd y DU, sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig**

**Rheoliadau REACH etc. (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020**

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio'r ddeddfwriaeth ganlynol:

Deddfwriaeth yr UE

- Rheoliad (EC) Rhif 1907/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 18 Rhagfyr 2006 ynglŷn â Chofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegion a sefydlu Asiantaeth Cemegion Ewropeaidd (REACH).

Deddfwriaeth Ddomestig

- Rheoliadau REACH etc. (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau REACH etc. (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) (Rhif 3) 2019;
- Rheoliadau Gorfodi REACH 2008 (Gogledd Iwerddon yn unig)

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Nid yw Rheoliadau 2020 yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd nac ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Mae'r diwygiadau'n sicrhau bod y Deyrnas Unedig (DU) yn bodloni ei rhwymedigaethau o dan y Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon i'r cytundeb ymadael ("y Protocol") ac i roi'r Protocol ar sail gyfreithiol mewn perthynas â'r Rheoliadau ar Gofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegion ("REACH"), fel sy'n ofynnol ar ddiwedd y Cyfnod

Gweithredu (IP). Mae'r offeryn hefyd yn darparu ar gyfer parhau i gael mynediad i nwyddau Gogledd Iwerddon ar gyferi marchnad Prydain Fawr .

**Diben y diwygiadau**

Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau REACH etc. (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019, Rheoliadau REACH etc. (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) (Rhif 3) 2019 a Rheoliadau Gorfodi REACH 2008 (Gogledd Iwerddon yn unig).

Mae'r Protocol yn mynnu bod Rheoliad (EC) Rhif 1907/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 18 Rhagfyr 2006, sy'n ymwneud ag REACH a sefydlu Asiantaeth Cemegion Ewropeaidd, yn parhau i fod yn gymwys i Ogledd Iwerddon. Felly, mae angen cywiriadau er mwyn diffinio'n gywir faint y gyfundrefn cemegion domestig newydd a sicrhau bod gan asiantaethau gorfodi Prydain Fawr y pŵer i gymhwyso cyfundrefn REACH ddomestig yn gywir ar ddiwedd y IP.

Mae Rheoliadau 2020 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi manylion tarddiad, diben ac effaith y y diwygiadau ar gael yma:

https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348213300

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae angen y rhan fwyaf o'r gwelliannau i sicrhau bod busnesau Gogledd Iwerddon yn gallu masnachu o fewn marchnad Prydain Fawr ac i sicrhau nad yw Gogledd Iwerddon yn destun rheoleiddio dwbl. Y gwelliannau sy'n weddill yw gwneud cyfundrefn REACH newydd Prydain Fawr yn fwy hylaw i fusnesau, yn enwedig busnesau bach sy'n masnachu mewn tunelli is o gemegion risg is. Mae'r gwelliannau wedi'u hystyried yn llawn; ac nid oes gwahaniaeth mewn polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â dull y Llyw